



Rhifyn 38, Haf 2019
Cyhoeddir RhAGOLWG gan Rhieni dros Addysg Gymraeg,
Tŷ Cymru, Greenwood Close,
Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd CF23 8RD
Ffôn 07912 175 403 Ebost ceri@rhag.cymru
Gwefan www.rhag.cymru



Y chwyldro'n 70 oed

I DDATHLU 70 mlynedd o Addysg Gymraeg yn y brifddinas, mae nifer o gynlluniau cynnar yr ysgol wreiddiol, sef Ysgol Gymraeg Caerdydd, wedi cynllunio gyda'r ysgolion presennol i orymdeithio drwy Gaerdydd fore Sadwrn Mehefin 22. Byddant yn ymgynnill wrth ochr Neuadd y Ddinas rhwng 9 a 10 y bore, ac am 10.00 bydd y Cyngor Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd, yn eu cyfarch ar gychwyn yr orymdaith. Byddant yn teithio drwy strydoedd y ddinas i Borth Gogleddol y Castell, lle byddant yn ymuno gyda Tafwyl wrth i'r wyl honno ddechrau am 11.00.

Cynrychiolir pob ysgol Gymraeg yn y ddinas yn yr Orymdaith, gyda chynlluniau ysgol Gymraeg Caerdydd, a dyfodd yn fuan i fod yn Ysgol Bryntaf, yn arwain. Bydd yr ysgolion presennol yn dilyn yn nhreft eu sefydlu, yn gyntaf Ysgol Melin Gruffydd, a sefydlwyd yn 1980. Bydd RhAG, y mudiad rhieni cenedlaethol sy'n ymgyrchu dros ymestyn ysgolion Cymraeg ledled Cymru, a'r Mudriad Meithrin, hefyd yn cymryd rhan.

Wedi cerdded ar hyd strydoedd di-draffig fel Heol y Frenhines a'r Ais, bydd yr Orymdaith yn mynd i'r Castell ac yn cael ei chroesawu i Tafwyl gan Eluned Morgan AC, Barwnes Elái, sy'n weinidog dros y Gymraeg yn y Llywodraeth. Mae hithau'n gyn-ddisgybl Ysgol Gynradd Bryntaf ac Ysgol Gymraeg Glantaf. Bydd yr Orymdaith yn cefnogi targed llywodraeth y Senedd o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



Meddai Iolo Walters ac Alwyn Evans, Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Pwyllgor Cynllunio, mewn datganiad, "Y nod yw dathlu'r tyfiant anhygoel sydd wedi bod mewn ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd ers i ninnau fod ymlith y dyrnaid cyntaf o ddisgyblion. Mae ein hwyrion bellach yn drydedd cenhedlaeth i fynychu'r ysgolion Cymraeg hyn. Hefyd, mae'r Orymdaith yn gyfle i ddangos i reni Caerdydd fod addysg cyfrwng-Cymraeg ar gael i'w plant ym mhob cornel o'r ddinas, beth bynnag yw iaith y cartref. Rydyn ni'n gobeithio y bydd y rhieni hynny, y di-Gymraeg gymaint â'r Cymry Cymraeg, sydd oll â'u plant wedi elwa ar addysg Gymraeg, yn gorymdeithio gyda ni i gefnogi ysgolion eu plant. Hefyd,

os ydych chi'n gyn-ddisgybl, dowch allan i gefnogi'ch hen ysgol chi, boed gynradd neu uwchradd!"

Ar 5 Medi 1949, agorodd Ysgol Gymraeg Caerdydd, yr ysgol gyntaf i ddarparu addysg cyfrwng Gymraeg yn y ddinas, mewn ystafell ddosbarth yn Ysgol Fodern y Bechgyn, Ninian Park, (safla bresennol Ysgol Gynradd Ninian Park). 19 o ddisgyblion a gofrestwyd ar y diwrnod cyntaf. Bellach, mae bron 800 o ddisgyblion yn dechrau bob blwyddyn yn 17 Ysgol Gynradd Cymraeg presennol Caerdydd. Mae tair Ysgol Uwchradd yn ogystal, gyda'r angen wedi ei brofi'n barod am bedwerydd ysgol o fewn y 5 mlynedd nesaf.

Pedwaredd ysgol gynradd i Gasnewydd

MAE RhAG wedi croesawu datganiad Cyngor Dinas Casnewydd sy'n rhoi manylion pellach am gynlluniau am bedwaredd ysgol Gymraeg y ddinas a fydd yn cychwyn mewn dosbarth ddechreul ym Medi 2020 yn ardal Caerllion ac yna'n

symud i safle parhaol yn ardal Pillgwenlli ym Medi 2022.

Bydd hyn cynyddu'r ddarpariaeth ymhellach yn ne orllewin y ddinas - ardal sydd wedi dangos galw cyson dros y blynnyddoedd. Bydd hi'n ysgol ddwy ffrwd.

Dyweddodd Elin Maher, RhAG Casnewydd, "Rydym am longyfarch cyngor Casnewydd am gynllun hyderus sydd yn cynnig cyfleoedd pellach i blant lleol. Mae ymgyrchoedd hyrwyddo diweddar yn sicr wedi dwyn ffrwyth."

Cydnabyddir cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r cyhoedd iawn hwn ac i'r wewan www.rhag.cymru Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y Llinell Gwylt: 0845 6076070 (cyfradd galwadau lleol) Llin-Gwener 10.00am-12.30pm/1.30-3.30pm

© Hawlfraint Rhieni dros Addysg Gymraeg 2018. Rhif elusen gofrestredig: 1153403



#PethauBychain
#Cymraeg2050



Dilynwch ni ar:



Cariad pur sy fel y dur

YM MEDI 2018, agorodd Ysgol Gymraeg Bro Dur ei drysau am y tro cyntaf mewn adeilad bendigedig gydag adnoddau addas ar gyfer yr 21ain ganrif! Mae bellach, 227 o ddisgyblion balch Bl 7&8 yn mynchy'r campws newydd yma o Ysgol Gymraeg Ystalyfera-Bro Dur yn sir Castell-needd Port Talbot, sy'n golygu fod addysg cyfrwng Cymraeg o fewn cyrraedd rhwydd i ddisgyblion a theuluoedd yr ardal.

Mae Bro Dur yn derbyn disgyblion o dair o ysgolion cynradd Cymraeg lleol, sef Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan, Ysgol Gynradd Tyle'r Ynn yn Llansawel ac Ysgol Gynradd Castell-needd. Mae'r agoriad



hanesyddol yma yn adlewyrchu'r twf a'r diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, a'r potensial amlwg am dwf pellach. Mae dwy o'r ysgolion cynradd, sef Rhosafan a Chastell-needd yn llawn eisoes a niferoedd Tyle'r Ynn yn tyfu'n gyson, sy'n argoeli'n dda am ddatblygiadau eraill o fewn y sir.

Bydd Ysgol Gymraeg Bro Dur yn tyfu'n gyson, hyd at groesawu Bl 11 ym Medi 2022 a gyda lle ar gyfer 650 o ddisgyblion Bl 7-11. Y cynlluniau ar hyn o bryd, yw y bydd disgyblion yn trosglwyddo i safle Ysgol Gymraeg Ystalyfera i dderbyn addysg Chweched Dosbath o Fedi 2023. Dywed

Pennaeth Ysgol Gymraeg Ystalyfera - Bro Dur, Mr Matthew Evans, "Mae'n fraint i agor ysgol newydd yma yng nghanol cymuned Port Talbot ac Aberafan, ac edrychwn ymlaen i dyfu ein partneriaethau yn sŵn yr iaith er budd ein plant a'n pobl ifanc. Mae disgyblion yr ardal wedi gorfol wynebu siwrne faith i Ystalyfera bob dydd i dderbyn eu hawl i addysg yn eu hiaith eu hunain, a bellach mae'r ysgol yn symud atyn nhw, ac i ganol eu cymuned. Dyma gyfle a chyfnod o wir arloesedd!".

Matthew Evans, Pennaeth

Hyrwyddo addysg Gymraeg

I GYD-FYND â diwrnod rhwngwladol amlieithrwydd ar 27 Mawrth 2019, mae RhAG wedi lansio taflen amlieithog er mwyn hyrwyddo addysg Gymraeg i gymunedau amlddiwylliannol Caerdydd a thu hwnt.

Mae'r daflen, sy'n hyrwyddo manteision addysg Gymraeg, wedi ei chyflieithu i 9 o'r prif ieithoedd a siaredir yn y brifddinas, sef Arabeg, Bengali, Cwrdeg, Farsi, Hindi, Pwncjab, Pwyleg, Somali ac Urdu.

Cafodd y dafeln ei chyhoeddi fel adnodd dilynol i ffilm fer a lansiwyd y llynedd, oedd yn brosiect ar y cyd rhwng RhAG, Ymgyrch TAG a chwmni Orchard ac wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac sy'n anelu i gyflwyno profiadau rhieni a disgyblion am addysg Gymraeg.

Meddai Wyn Williams, Cadeirydd Cenedlaethol RhAG,

"Yr ysbrydoliaeth ar gyfer cynhyrchu'r taflenni hyn oedd agor Ysgol Hamadryad yn 2016, sef yr ysgol Gymraeg gyntaf i wasanaethu ardaloedd Grangetown a Threbiwt – dwy o ardaloedd mwyaf amlieithog ac amlddiwylliannol Cymru.

"Yn ganolog i'r ymgyrch wrth sefydlu'r ysgol, roedd y dyhead i weld plant o bob

cefndir yn derbyn addysg Gymraeg. Ac felly mae'r taflenni hyn yn torri tir newydd o ran cyflwyno'r Gymraeg i gymunedau newydd a'i gosod mewn cyd-destun amlieithog fel sydd i'w gael yng Nghaerdydd.

Gwyddom fod Catalunya yn gwneud llawer i hyrwyddo'r Gatalaneg mewn ieithoedd eraill ac felly dyma ymdrech i ddechrau ar y gwaith pwysig hwnnw yma yng Nghymru.

"Ein prif neges felly yw bod y Gymraeg yn perthyn i bawb sy'n dewis byw yng Nghymru. Hyderwn y bydd y taflenni a'r ffilm fel pecyn cyfannol yn fod o ddathlu hynny ac yn ein galluogi i rannu neges gadarnhaol am yr iaith fel pont i gysylltu diwylliannau a chreu'r teimlad o berthyn. Rydym hefyd yn gobeithio y byddant yn fod o ddeffro chwlfrydedd rhieni trwy bwysleisio bod dewis arall ar gael iddynt o ran addysg eu plant a bod addysg Gymraeg yn agored ac ar gael i bawb.

"Mae siwrnai gyffrous o'n blaenau wrth i unigolion a chymunedau newydd gofleidio'r Gymraeg am y tro cyntaf - cymunedau sydd eisoes yn amlieithog - ac mae lledaenu'r neges fod addysg Gymraeg yn hygyrch i bob cymuned yn rhan annatod o'r

daith honno."

Meddai Trefnwr Diwrnod Rhyngwladol Amlieithrwydd 2019,

"Mae pawb yn ieithydd. Mae pobl yn siarad. Dyma beth mae pobl yn ei wneud. Fel rhwogaeth rydym wedi esblygu dros filoedd o flynyddoedd ac wedi addasu i siarad mwy nag un iaith yn hawdd iawn."

"Ond rywsut mae'r drafodaeth wedi newid dros yr ychydig ganrifedd diwethaf a'r canfyddiad yn amlach na pheidio yw bod siarad mwy nag un iaith yn rhywbeth afreolaidd, neu unigryw, er bod mwy na dwy ran o dair o boblogaeth y byd yn siarad dwy iaith neu fwy yn eu bywydau bob dydd."

"Nod Diwrnod Rhyngwladol Amlieithrwydd yw dathlu amrywiaeth ieithyddol a'r ffodd aml-haenog, amlieithog y mae pobl yn defnyddio ieithoedd bob dydd."

"Gobeithiwn y bydd hadau'r diwrnod, fel yr ieithoedd eu hunain, yn ffynnu ac yn tyfu mewn amrywiol ffyrdd wrth i wahanol gymunedau a chefnogwyr eu cofleidio ar 27 Mawrth. Mae amlieithrwydd yn gyffredin. Gadewch i ni ei ddathlu, yn ei holl ffurfiau!"

Cynnydd yn Abertawe wrth i ysgolion gael adeiladau newydd

MAE RhAG Abertawe'n llawenhau bod y sir am godi dau adeilad newydd sbon i ehangu addysg Gymraeg yn y ddinas. Bydd y naill ar gyfer Ysgol Tirdeunaw yn cael ei godi ar dir Ysgol Gyfun Bryn Tawe, gyda lle i 525 o blant, a'r llall, ar gyfer Ysgol Tan-y-lan, â lle i 420 o blant yn ardal y Clas.

Mae hyn yn dipyn o gynnydd, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu nifer y disgylion mewn addysg Gymraeg gan ryw 800 ymhen deng mlynedd. Bu RhAG yn pwysio ar y sir am sawl blwyddyn, ac yn y pen draw, roedd hyn yn gyfadawl.

Roedd RhAG am gadw Ysgol Tirdeunaw ar ei safle presennol, a phwysleiswyd hyn yn y cyfarfod ydym hynol a gynhalwyd gyda swyddogion y sir. Roedd Tirdeunaw wedi cychwyn gyda deunaw o blant, ac mewn ardal o dai cyngor. Roedd rhai o'r farn na fyddai byth yn llwyddo, ond tyfodd yn gyflym, gyda 450 o blant yn ei mynychu. Roedd hyn yn dod â'r Gymraeg yn ôl i ardal a'i colloedd – ardal Treboeth, a'i chysylltiadau â Gwyrosydd. Collwyd y frwydr i gadw'r ysgol ar ei safle, gwaetha'r modd. Mae perygl yr defnyddir y safle ar gyfer addysg

Saesneg maes o law.

Roedd yn amlwg bod angen safle newydd i Tan-y-lan, gan mai lle i 115 sydd yno yn awr. Doedd cynllun datblygu addysg Gymraeg y sir ddim yn ddigon uchelgeisiol, ond diolch i ymyrraeth Eluned Morgan a'r Llywodraeth a phwysau RhAG, argyhoeddwyd y sir bod angen cynnyddu. Roedd RhAG o blaidd cael ysgol Gymraeg yn agos i ganol Treforys, ar dir rhwng Treforys ac Ynysforgan. Gwahanol oedd barn y Sir. Bydd yr ysgol newydd ar y Clas, ardal tai cyngor, ymhellach o ganol Treforys. Dyw hyn ddim yn ddelfrydol, ond fel gyda phob ysgol Gymraeg arall a agorwyd yn Abertawe, bydd yn sicr o lwyddo.

Mae'r newidiadau hyn yn golgyu y bydd Ysgol Tan-y-lan yn mynd â thipyn o ddalgyrch ysgol bresennol Tirdeunaw, a bydd ysgol Tirdeunaw yn mynd yn nes at Gwrbwrla a Threfansel, sydd ar hyn o bryd yn bell o gyrraedd hwylus i ysgol gynradd Gymraeg.

Roedd cynigion y sir ar gyfer Ysgol Gymraeg Felindre'n siom. Bu RhAG ar hyd y blynnyddoedd yn dadlau o blaidd cadw'r

ysgal, ac mewn ymgynghoriad ddiwedd 2018 dadleuodd RhAG fod angen cadw'r ysgol ar agor nes bod tai newydd yn cael eu codi yn y cyffiniau. Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, cysylltodd RhAG â phob ysgol gynradd Gymraeg, a chael gwybod nad oedd yn Ysgol Felindre ond 12 o blant.

Fodd bynnag, dim ond tri o'r plant oedd yn byw yn nalgylch Felindre. Roedd pump yn byw'n llawer nes i Ysgol Gymraeg Gelliônen, a'r gweddill o wahanol rannau o Abertawe. Ar ôl ymgynghori pellach, daethpwyd i'r casgliad nad oedd modd cyflawnhau cadw ysgol ar agor i 3 o blant, a darparu addysg gynradd hyfwy a chyflawn i'r nifer yma. Mae'r nifer fach, mae'n debyg, yn adlewyrchu newid yn natur ddemograffig ac ieithyddol y pentre ar hyd y blynnyddoedd, Cynigiodd RhAG bod yr ysgol yn cael ei chadw ar gyfer dibenion addysg Gymraeg, gan gynnwys fel canolfan addysg feithrin, hwyrdyfodiaid neu ganolfan addysg gyfeirio. Mae'n debyg y bydd y sir yn gwrti y cynigion.

Heini Gruffudd

Cam yn ôl wrth i ysgolion gael eu huno

MAE RhAG wedi ymateb i benderfyniad Cabinet Cyngor RhCT i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac Ysgol Heol-y-Celyn ac adeiladu ysgol newydd sbon ar safle presennol Heol-y-Celyn.

Meddai Ceri McEvoy, Cyfarwyddwr Datblygu RhAG, "Mae'r penderfyniad hwn yn hynod siomedig. Mae RhAG yn rhannu pryderon rhieni ac ymgyrchwyr lleol sy'n gofio y bydd bwrw ymlaen â'r cynnig hwn yn cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg yng nghymunedau gogledd Pontypridd.

"Nid yw'r cynnig yn ymateb i anghenion addysgol ac ieithyddol yr ardal. Ni fydd amddifadu cymunedau o addysg Gymraeg hygrych a lleol yn bodloni disgwyliadau

Llywodraeth Cymru. Ac ni fydd cynyddu'r rhwystrau i gael mynediad at addysg Gymraeg yn cynorthwyo'r Sir i greu 6,054 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol erbyn 2021, fel sydd wedi'i nodi yng Nghynllun Strategol y Gymraeg RhCT 2017-20

"Rydym o'r farn bod y cynnig yn wallus ac nad yw'n profi bod gwaith digonol ac ystyrlon wedi ei wneud i ymchwilio i safleoedd posibl eraill – megis safle hen ysgol Tŷ Gwyn, fel sydd wedi'i gadarnhau drwy gais Rhyddid Gwybodaeth - nac ychwaith wedi mesur yn llawn, effaith ieithyddol y cynnig ar gymunedau gogledd y dref.

"Tra'n derbyn yn llwyr bod angen buddsoddi mewn adeilad newydd ar gyfer

Ysgol Gymraeg Pont Sion Nortôn – ac yn wir, wrth groesawu'r buddsoddiad gwerthfawr hwnnw - mae gwersi o siroedd eraill wedi dangos bod cymryd y penderfyniad anghywir yn medru arwain at ganlyniadau anuniongyrchol, all gael effaith andwyol ar sefydlogrwydd a thwf y ddarpariaeth. Byddai'n gwbl anfaddeuol syrthio i'r un fagl yn yr achos hwn.

"Mae'r Cabinet wedi colli cyfle i ofyn i swyddogion gynnal gwaith pellach ar ystod o opsiynau amgen, creadigol er mwyn ymateb i bryderon rhieni a chadw'r ddarpariaeth yn lleol yng nghymunedau Pontypridd."




Wyn Williams yn diolch i Alan Lewis am 10 mlynedd o wasanaeth fel trysorydd RhAG

Cyrraedd cynulleidfa newydd

HYRWWYDDO'R Gymraeg er mwyn cyrraedd cynulleidfa newydd oedd thema Cynhadledd a Chyfarfod Blynnyddol RhAG yn Ysgol Hamadryad, Tre-biwt, mis Mawrth.

Meddai Wyn Williams, Cadeirydd Cenedlaethol RhAG, "Agorwyd Ysgol Hamadryad yn 2016 a symudodd i'w adeilad parhaol ym mis Ionawr eleni. Ysgol Hamadryad yw'r ysgol Gymraeg gyntaf i wasanaethu ardaloedd Grangetown a Thre-biwt – dwy o ardaloedd mwyaf aml-ethnig ac amlddiwylliannol Cymru. Roedd sefydlu'r

ysgal yn garreg filltir hanesyddol yn natblygiad addysg Gymraeg yng Nghaerdydd ac yn gam pwysig sicrhau bod addysg Gymraeg ar gael yn hwylus i bob cymuned yn y ddinas.



Ysgol newydd yn glanio

MAE datblygiad y Glannau wedi'i leoli i'r de orllewin o ganol tref y Barri ac mae rhwng canol y dref ac Ynys y Barri. Bydd tua 1,700 o anheddu'n cael eu hadeiladu yno erbyn 2022. Bydd Ysgol Gynradd yn rhan o'r datblygiad erbyn Mis Medi 2021 yn sgôl buddsoddiad o £7.4 miliwn.

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Sant Baruc wedi ei leoli mewn hen adeilad gyda chyfllestrau anaddas a'r capaciti ar gyfer 210 disgybl yn annigonol. Dechreuodd ein hymgyrch ym mis Mawrth 2017 i berswadio'r Cabinet i symud YSB i'r Glannau.

Fe gyhoeddodd y Cyngor yn mis Rhagfyr 2018 ei fwriad i adeiladu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd gwerth £7.4m yn y Barri, gyda chapasiti ar gyfer 420 o ddisgyblion yr ysgol a 96 o leoedd meithrin. Disgwylir penderfyniad terfynol yn yr haf 2019.

Y prif gwrsi i'w dysgu o'r ymgrych yw: manteisiwch ar bob cyfle i atgoffa'r Cynghorau am dargedau Cymraeg 2050, sef cynyddu nifer y lleoedd o draean erbyn 2030 a chyrraedd miliwn o siaradwyr



Cymraeg erbyn 2050. Ymgrychu, cysylltu, cyfathrebu yn y gymuned, yn enwedig gyda'r gymuned ddi-Gymraeg. Mynychwch gyfarfododd Fforwm Addysg Gymraeg

eich Sir a chofiwch pan mae Cyngorau yn buddsoddi mewn adeiladau newydd, bydd y galw yn dilyn.

Mark Bowen

Bygythiad i ganolfannau Gwynedd

MAE RhAG yn gofyn i'r Llywodraeth wneud cyfraniad arbennig i gynnal canolfannau hwyrrddyfodiaid Gwynedd.

Mewn llythyr at Eluned Morgan, Y Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, mae'r mudiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd ar fyrder.

Mae Gwynedd wedi cynnal ymgynghoriad ar ei chanolfannau i hwyrrddyfodiaid. Mae posibilrwydd y bydd rhaid i'r sir gwtogi ar y rhain yn sgil anawsterau ariannol.

Meddai Wyn Williams, Cadeirydd Cenedlaethol RhAG, "Gwynedd yw'r unig sir yng Nghymru lle mae disgwl i bob plentyn cynradd fynd i ysgol Gymraeg leol. Mae dilyniant wedyn i'r sector uwchradd. Mae hyn yn golygu bod angen i bob mewnddyfodiaid i'r sir dderbyn cwrs

Mae Gwynedd wedi cynnal ymgynghoriad ar ei chanolfannau i hwyrrddyfodiaid. Mae posibilrwydd y bydd rhaid i'r sir gwtogi ar y rhain yn sgil anawsterau ariannol.

Cymraeg dwys cyn gallu ymdopi ag addysg yn yr ysgol leol."

"Yn achos mewnddyfodiaid i wledydd

Prydian, mae'r Llywodraeth yn cynnig gwrsi iaith Saesneg am ddim. Dylai hyn ddigwydd i fewnddyfodiaid i Gymru, ac yn arbennig i Wynedd, gyda gwrsi Cymraeg yn cael eu darparu am ddim.

"Nid yw'n deg disgwl i'r Sir wneud y gwaith ychwanegol yma heb dderbyn cymorth ariannol arbennig gan y Llywodraeth."

"Rydyn ni'n galw ar Wynedd i gadw'r ddarpariaeth wych sydd ganddynt i fewnddyfodiaid, ond wrth wneud hyn rydyn ni'n apelio i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid ariannol arbennig iddynt fel na fydd y gwaith pwysig yma o dan fygythiad."

Bwrw ymlaen â chynlluniau RhCT

Mae cabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cytuno i ddatblygu nifer o brosiectau i gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir. Mae'r cynlluniau yma'n cynnwys creu cyfleusterau newydd ar gyfer dwy ysgol bresennol yng Nghwm Rhondda Fawr a Chwm Rhondda Fach, a darpariaethau newydd ger Pentre'r Eglwys a de Cwm Cynon.

Mewn cyfarfod ar 9 Ebrill, cytunodd y Cabinet i fwrw ymlaen â'r cynlluniau canlynol:

Ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb a chyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru i naill ai adnewyddu'r cyfleusterau presennol yn Ysgol Gyfun Cwm Rhondda, neu adleoli i gyfleuster newydd sbon sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif - a chynnal astudiaeth ddichonoldeb i nodi safle addas i adeiladu ysgol newydd ar ei gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Lyn-y-forwyn. Bydd y Cyngor yn gwneud cais am gyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer y prosiectau hyn.

Ymrwymo i agor Ysgol Gynradd Cyfrwng

Cymraeg newydd i wasanaethu safleoedd tai yn y dyfodol tua de Llanilltud Faerdref / Pentre'r Eglwys a gerllaw Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys.

Ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb er mwyn archwilio'r cyfleoedd i gynyddu lleoedd cyfrwng Cymraeg yn ardal Cwm Cynon, tua'r de o Aberdâr - mewn ymateb i'r datblygiadau tai parhaus ac arfaethedig yn Aberpennar a datblygiadau arfaethedig yn y dyfodol ar gyfer Abercwmboi.



Issue 38, Summer 2019
 RhAGOLWG is published by RhAG,
 Tŷ Cymru, Greenwood Close,
 Cardiff Gate Business Park, Cardiff CF23 8RD
 Tel 07912 175 403 Email ceri@rhag.cymru
 Web www.rhag.cymru



Revolution turns 70

TO CELEBRATE 70 years of Welsh medium education in the capital, many of the first pupils of the original school, Ysgol Gymraeg Caerdydd, have organised with the existing schools to march through Cardiff on Saturday 22 June between 9 and 10 am, and at 10am, Councillor Huw Thomas, Leader of Cardiff Council, will greet them at the start of the parade.

They will travel through the streets of the city to the North Gate of the Castle, where they will join Tafwyl as that festival starts at 11am. Every Welsh medium school in the city will be represented in the Parade, with the former pupils of Ysgol Gymraeg Caerdydd, which soon grew to be Ysgol Bryntaf, leading the procession. The current schools will follow in order of establishment, headed by Ysgol Melin Gruffydd, which was established in 1980. RhAG, the national parents' organisation that campaigns for the expansion of Welsh-medium schools across Wales, and Mudiad Meithrin, will also take part.

After walking along the traffic-free streets of Queen Street and the Hayes, the Parade will enter the Castle and will be welcomed to Tafwyl by Eluned Morgan AM, Baroness Ely, who is the Welsh Government's Minister for the Welsh Language. She is a former pupil of Ysgol Gynradd Bryntaf and Ysgol Gymraeg Glantaf.

The Parade will support the government's target of securing a million Welsh speakers by 2050.

Iolo Walters and Alwyn Evans, Chair and



Secretary of the Organising Committee, said in a statement, "The aim is to celebrate the incredible growth that has taken place in Cardiff's Welsh medium schools since we were among the first few pupils. Our grandchildren are now the third generation to attend these Welsh medium schools. The Parade is also an opportunity to show Cardiff parents that Welsh-medium education is available to their children in every corner of the city, whatever the language of the home. We hope that those parents, non-Welsh speakers as much as Welsh speakers, all of whom have benefited from Welsh-medium education, will march

with us to support their children's schools. Also, if you are a former pupil, come out to support your old school, primary or secondary!".

On 5 September 1949, Ysgol Gymraeg Caerdydd, the first school to provide Welsh-medium education in the city, opened in a classroom at the Boys' Modern School, Ninian Park, (the current site of Ninian Park Primary School). 19 pupils were registered on the first day. Nearly 800 pupils now start each year in Cardiff's current 17 Welsh-medium Primary Schools. There are also three Secondary Schools, with a fourth school needed within the next 5 years.

Major step forward for Newport schools

PARENTS FOR Welsh Medium Education has welcomed a statement by Newport City Council which gives further details of plans for the city's fourth Welsh medium school which will open as a starter class in September 2020 in the Caerleon area and then move to a permanent site in the

Pillgwenlly area in September 2022.

This will increase provision further in the south west of the city - an area which has shown consistent demand over the years. It will be a two-form entry school.

"There has been a steady increase in Newport over the last decade with two

new Welsh medium schools opening. The fourth school, which will further increase the provision and offer a much closer location for pupils in this area, is to be welcomed," said Elin Maher, co-ordinator for Newport's Parents for Welsh Medium Education group.

We are grateful to the Welsh Government for supporting this publication and www.rhag.cymru For further information about any aspect of the Welsh language, please ring the Link Line to Welsh: 0845 6076070 (local call rates) Mon-Fri 10.00am-12.30pm/1.30-3.30pm.

© Copyright Rhieni dros Addysg Gymraeg 2019. Registered Charity Number: 1153403



#PethauBychain
 #Cymraeg2050



Follow us on:



School that moved to its pupils

IN SEPTEMBER 2018, Ysgol Gymraeg Bro Dur opened its doors for the first time in a fantastic building with 21st Century resources! There are now 227 proud year 7 and 8 pupils attending this new campus which is part of Ysgol Gymraeg Ystalyfera-Bro Dur in Neath Port Talbot, and now means that Welsh-medium education is within easy reach of pupils and families in the area. Bro Dur accepts pupils from three local Welsh medium primary schools, namely Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan, Ysgol Gymraeg Tyle'r Ynn in Briton Ferry and Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd in Neath.

This historic development reflects the



growth and interest in Welsh-medium education in the area, and the obvious potential for further growth. Two of the primary schools, Rhosafan and Ysgol Gymraeg Castell-nedd, are already full and the numbers at Tyle'r Ynn are growing steadily, a promising sign for other developments. Ysgol Gymraeg Bro Dur is expected to grow steadily over the next few years and will welcome its first cohort of Yr.11 pupils in September 2022. It has overall capacity for 650 pupils from Years 7-11. The current plans are that pupils will transfer to the Ysgol Gymraeg Ystalyfera site to receive their sixth form education from September 2023 onwards.

Headteacher of Ysgol Gymraeg Ystalyfera - Bro Dur, Mr Matthew Evans said, "It is a privilege to open a new school here in the heart of Port Talbot and Aberavon, and we look forward to growing our partnerships for the benefit of our children and young people. Pupils from this area have had to face a long journey to Ystalyfera every day to receive their right to education in their own language, and now the school is moving to them, and to the heart of their community.

Matthew Evans, Headteacher

Welsh belongs to us all

TO COINCIDE with the first ever International Day of Multilingualism held on 27 March, RhAG has launched a series of multilingual leaflets to promote Welsh medium education to Cardiff's multilingual and multicultural communities.

The leaflet, which promotes the benefits of Welsh medium education, has been translated into 9 of the main languages spoken in the capital, Arabic, Bengali, Kurdish, Farsi, Hindi, Punjabi, Polish, Somali and Urdu.

The leaflet derives from a short film launched last year, which was a joint project between RhAG, Ymgwrch TAG and Orchard and was funded by the Welsh Government, aims to introduce the experiences of parents and pupils about Welsh medium education.

Wyn Williams, National Chairman of RhAG, said, "The inspiration for producing these leaflets was the opening of Ysgol Hamadryad in 2016, the first Welsh medium school to serve the Grangetown and Butetown areas - two of Wales' most multilingual and multicultural areas.

"Central to the campaign in establishing

the school was the desire to see children from all backgrounds receiving Welsh medium education. So these leaflets are breaking new ground in introducing the Welsh language to new communities. We know that Catalonia is proactive in terms of promoting the Catalan language in other languages and so this is an attempt to begin this important work here in Wales.

"Our main message therefore is that the Welsh language belongs to everyone who chooses to live in Wales. We trust that the leaflets and short film as a package will be a way of celebrating this and will enable us to share a positive message about the language as a bridge to connect cultures and foster a sense of belonging. We hope that they will also play a part in the awakening of parents' curiosity by emphasising that there is an alternative choice in terms of their children's education and that Welsh medium education is open and accessible to all.

"We have an exciting journey ahead of us as new individuals and communities embrace the Welsh language for the first time - communities which are already

multilingual - and making sure that Welsh medium education is accessible to all communities is an integral part of that journey."

The organisers of the International Day of Multilingualism 2019 said, "Everyone is a linguist. People talk. It's just what humans do. As a species we have evolved over thousands of years and adapted to speaking more than one language very easily."

"But somehow the dialogue has changed over the last couple of centuries and speaking more than one language is commonly perceived as irregular, or special, when in fact more than two thirds of the world's population speak two or more languages in their daily life."

"International Day of Multilingualism aims to celebrate linguistic diversity and the multi-layered, multi-lingual way that humans actually use languages in our everyday lives. We hope that, like languages themselves, the seed of the International Day of Multilingualism will flourish and grow in diverse ways as it is taken up by different communities."

Swansea provision expands to accommodate Welsh growth

SWANSEA local authority is to build two brand new buildings to expand Welsh medium education in the city. The first - for Ysgol Tirdeunaw - will be built on the grounds of Ysgol Gyfun Bryn Tawe, with room for 525 children, and the other for Ysgol Tan-y-lan, accommodating 420 children in the Clase area.

This is a considerable increase, and it is anticipated that this will increase the number of pupils in Welsh-medium education by about 800 in ten years' time. RhAG has been pressing the LA on this for several years, and ultimately this was a compromise. RhAG wanted to keep Ysgol Tirdeunaw on its current site, and this was emphasized in the termly meetings held with education officers. Tirdeunaw originally opened with eighteen children, and in an area of council houses. Some thought it would never succeed, but it grew rapidly, with now with 450 children bringing the Welsh back to an area which had previously lost it - the Treboeth area, and its links to Gwyrosydd. Unfortunately, the battle to keep the school on its site was lost. There is now a danger that the site will be used for English education in due course.

It was clear that a new site was needed for Tan-y-lan, as currently there is only room for 115 pupils. The LA's Welsh-medium education development plan was not ambitious enough, but thanks to the intervention of Eluned Morgan AM, the Welsh Government and pressure from RhAG, the local authority was finally convinced of the need to increase capacity. RhAG was in favour of a Welsh medium school near the centre of Morriston, on land between Morriston and Ynysforgan. The LA's view was different. The new school on the Clase council housing area, will be further away from the centre of Morriston. This is far from ideal, but as with all other Welsh-medium schools opened in Swansea, it will certainly succeed. These changes mean that Ysgol Tan-y-lan will take some of the catchment area of the current Tirdeunaw school, and Ysgol Tirdeunaw will be situated closer to Cwmbwrla and Trefansel, two communities which currently don't have easy access to a Welsh medium primary school.

The LA's proposals for Ysgol Gymraeg Felindre were disappointing. RhAG has been arguing over the years in favour

of retaining the school, and during a consultation at the end of 2018, RhAG argued that the school should be kept open until new houses were built in the local area. During this consultation RhAG contacted all of Swansea's Welsh-medium primary schools, and found that Ysgol Felindre had only 12 pupils on roll. However, only three of the children lived in the Felindre catchment area. Five lived much closer to Ysgol Gymraeg Gellionnen, and the rest came from different parts of Swansea. Following further consultation, it was concluded that it would not be justifiable to keep a school open for 3 pupils and that a viable and well-rounded primary education could not be provided for such a small number of pupils. This probably reflects a change in the demographic and linguistic nature of the village over the years. RhAG proposed that the school be retained for Welsh-medium education purposes, including as a nursery education centre, latecomers or a referral education centre. It is likely that the Local Authority will reject the proposals.

Heini Gruffudd

Retrograde step as schools are merged

PARENTS FOR Welsh medium Education (RhAG) has responded to RCT Council Cabinet's decision to close Ysgol Gynradd Gymraeg Sion Norton and Ysgol Heol-y-Celyn and build a brand new school on the existing Heol-y-Celyn site.

Ceri McEvoy, RhAG Director of Development said, "Today's decision is extremely disappointing. RhAG shares the concerns of parents and local campaigners who are concerned that taking this proposal forward will have a detrimental effect on the Welsh language in the communities of north Pontypridd.

"The proposal does not respond to the educational and linguistic needs of the

area. Depriving communities of accessible and local Welsh language education will not meet the expectations of the Welsh Government. And increasing the barriers to accessing Welsh medium education will not assist the LA to create the additional 6,054 Welsh speakers by 2021, as set out in RCT's Welsh in Education Strategic Plan for 2017-2020.

"We believe that the proposal is flawed, and does not prove that sufficient and meaningful work has been undertaken to investigate other sites - such as the former Tŷ Gwyn school site, as was confirmed by a recent FOI request - nor has it fully measured the linguistic impact of the proposal on the north of the town.

"Whilst fully supporting the need to invest in a new building for Ysgol Gymraeg Pont Sion Norton - indeed, we welcome the valuable and much-needed investment - lesson from other LAs have shown that taking the wrong decision can lead to unintended consequences, which can have a detrimental effect on the stability and growth of provision.

"The Cabinet has missed a golden opportunity to instruct officers to carry out further work on a range of alternative options in order to demonstrate that they have listened to parent's concerns and to keep Welsh medium provision in the local area."




Reaching a new audience

PROMOTING THE Welsh language in order to reach a new audience was the theme of RhAG's Annual General Meeting held on Saturday 16 March at Ysgol Hamadryad, Butetown.

Wyn Williams, National Chair of RhAG said, "Central to the campaign in establishing the school was the desire to see children from all backgrounds receiving Welsh medium education."

Ysgol Hamadryad was opened in 2016 and moved to its permanent building in

January this year. Hamadryad is the first Welsh medium school to serve the areas of Grangetown and Butetown - two of Wales' most multi-ethnic and multi-cultural areas.



On the Waterfront

THE WATERFRONT development is located to the south west of Barry town centre and can be found between the town centre and Barry Island. 1,700 dwellings will be built there by 2022. A Primary School will form part of the provision by September 2021 at a cost of £ 7.4 million.

Ysgol Sant Baruc is currently housed in an old building and its capacity for 210 pupils is inadequate. Our campaign began in March 2017 with the aim of persuading the Cabinet to relocate YSB to the Waterfront.

In December 2018, the Council announced its intention to build a brand-new Welsh medium school in Barry worth £7.4m, with a capacity for 420 pupils and 96 nursery places. A final decision is expected in the summer of 2019.

The main lessons which we have learnt from the campaign are: take advantage of every opportunity to remind the LA of the Cymraeg 2050 targets, namely to increase the number of places by a third by 2030 and a million Welsh speakers by 2050.



Campaign, engage and communicate with the community, especially with non-Welsh speaking members of the community. Attend your LA's Welsh

Education Forum and always remember that when Councils invest in new buildings, demand will follow.

Threat to Gwynedd Welsh centres

RhAG IS asking the Welsh Government to make a special contribution to maintaining the latecomer Welsh centres in Gwynedd. In a letter to Eluned Morgan, the Minister for Lifelong Learning and Welsh Language, the organisation calls on the Welsh Government to intervene as a matter of urgency.

Gwynedd is currently considering the future of its centres for latecomers. There is a possibility that the LA will have to reduce the number of centres due to financial difficulties.

Wyn Williams, National Chairman of RhAG, said, "Gwynedd is the only county in Wales where every primary child is expected to attend a local Welsh school. There is then a natural progression to

Gwynedd is currently considering the future of its centres for latecomers. There is a possibility that the LA will have to reduce the number of centres due to financial difficulties.

the secondary sector. This means that all latecomers need to receive an intensive

Welsh language course before being able to cope with education at their local school."

"In the case of incomers to the UK, the Government offers free English language lessons. This should happen to incomers to Wales, and especially to Gwynedd, with Welsh lessons provided free of charge.

"It is not fair to expect the LA to do this extra work without receiving special financial support from the Government."

"We are calling on Gwynedd to retain - and indeed increase - the excellent provision, but in doing so we also appeal to the Welsh Government to provide them with special funding so that this important work is safeguarded."

New schemes announced at RhCT

RHONDDA CYNON Taf Council's cabinet has agreed to develop a number of projects to increase the provision of Welsh-medium education in the county. These schemes include the creation of new facilities for two existing schools in the Rhondda Fawr and Rhondda Fach Valleys, and new provisions near Church Village and in the south Cynon Valley. At a meeting on 9 April, Cabinet agreed to proceed with the following schemes:

- To undertake a feasibility study and

submit a business case to the Welsh Government to either refurbish existing facilities at Ysgol Gyfun Cwm Rhondda, or relocate to a brand-new facility fit for the 21st Century - and undertake a feasibility study to identify a suitable site for building a new school for Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-y-Forwyn.

The Council will be applying for 21st Century Schools funding for these projects:

- A commitment to opening a new Welsh language school to serve future housing

sites around the south of Llantwit Fardre/Church Village and adjacent to the Church Village Bypass;

- To undertake a feasibility study to explore opportunities to increase Welsh medium places in the Cynon Valley area, south of Aberdare - in response to the ongoing and proposed housing developments in Mountain Ash and proposed future developments in Abercwmboi.